Pecyn Dogfen Cyhoeddus

At: Aelodau'r Cyngor Sir

Dyddiad: 4 Medi 2018

Rhif Union: 01824706141

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CYNGOR SIR, DYDD MAWRTH, 11 MEDI 2018** am **10.00 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN LL15 1YN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1 – ESTYNNIR GWAHODDIAD I'R WASG AC AELODAU'R CYHOEDD FYNYCHU'R RHAN YMA O'R CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT**

Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu yn y busnes a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

**4 DYDDIADUR Y CADEIRYDD** (Tudalennau 5 - 6)

Nodi ymrwymiadau dinesig a ymgymerwyd gan Gadeirydd y Cyngor (copi ynghlwm).

**5 COFNODION** (Tudalennau 7 - 12)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cyngor Sir a gynhaliwyd 3 Gorffennaf 2018 (copi ynghlwm).

**6 AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU: DIWEDDARIAD ARIANNOL AC YMGYNGHORIAD 2019-20**

Cyflwyniad gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

**7 HYFFORDDIANT A DATBLYGU AELODAU** (Tudalennau 13 - 16)

Ystyried adroddiad gan y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (copi ynghlwm) i roi diweddariad ar faterion hyfforddi gorfodol a hyfforddiant yn ôl disgresiwn a chosbau posibl.

**8 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL** (Tudalennau 17 - 22)

Ystyried adroddiad gan Bennaeth y Gyfraith, Adnoddau Dynol a'r Gwasanaethau Democrataidd (copi ynghlwm) er mwyn i'r aelodau gael gwybod am waith y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ar gyfer blwyddyn y cyngor 2017/18.

**9 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CYNGOR SIR** (Tudalennau 23 - 26)

Ystyried Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor (copi ynghlwm).

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

Y Cynghorydd Peter Scott (Cadeirydd)

Y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies (Is-Gadeirydd)

Mabon ap Gwynfor
Brian Blakeley
Joan Butterfield
Jeanette Chamberlain-Jones
Ellie Chard
Ann Davies
Gareth Davies
Peter Arnold Evans
Hugh Evans
Bobby Feeley
Rachel Flynn
Tony Flynn
Huw Hilditch-Roberts
Martyn Holland
Hugh Irving
Alan James
Brian Jones
Huw Jones
Pat Jones
Christine Marston
Barry Mellor
Melvyn Mile
Bob Murray
Merfyn Parry
Paul Penlington
Pete Prendergast
Arwel Roberts
Anton Sampson
Glenn Swingler
Andrew Thomas
Rhys Thomas
Tony Thomas
Julian Thompson-Hill
Graham Timms
Joe Welch
Cheryl Williams
David Williams
Eryl Williams

Tina Jones
Gwyneth Kensler
Geraint Lloyd-Williams
Richard Mainon
Huw Williams
Emrys Wynne
Mark Young

**COPIAU I'R:**

Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Digwyddiadau wedi eu mynychu gan y Cadeirydd / Events attended by Chairman**

| Dyddiad/Date | Digwyddiad/Event | Lleoliad/Location |
|---|---|---|
| 26/06/18 | 'Dipyn o Sioe' Cyngerdd Ysgolion ardal<br>'A bit of a Show' Rhyl area concert | Y Rhyl / Rhyl |
| 27/06/18 | Diwrnod y Lluoedd Arfog a Diwrnod Cenedlaethol Milwyr Wrth Gefn<br>Armed Forces Day and National Reserves Day | Rhuthun / Ruthin |
| 28/06/18 | Cygerdd Ysgolion – Gwyl Rhuthun<br>Schools Concert – Ruthin Festival | Rhuthun / Ruthin |
| 29/06/18 | Seremoni Torri Tir - Ysgol Gatholig 3-16 Newydd yn y Rhyl<br>Turf Cutting ceremony – New 3-16 Cathool School in Rhyl | Y Rhyl / Rhyl |
| 30/06/18 | Derbyniad VIP Diwrnod Cenedlaethol y Lluoedd Arfog<br>National Armed Forces Day VIP Reception | Llandudno |
| 01/07/18 | Gwasanaeth Dinesig Cadeirydd Sir y Fflint<br>Chairman of Flintshire's Civic Service | Y Fflint / Flint |
| 05/07/18 | Ddathliad Rhyngwladol gyda gwesteion arbennig CALAN<br>International Celebration with special guests CALAN<br>(Mynychodd yr Is-Gadeirydd / Vice-Chair attended) | Llangollen |
| 06/07/18 | Agoriad swyddogol Campfa Awyr Agored Rhuddlan yng Nghae Chwarae Admiral<br>Official Opening of Rhuddlan Fresh Air Gym at Admiral's Field | Rhuddlan |
| 08/07/18 | Gwasanaeth Dinesig Maer Rhuthun<br>Mayor of Ruthin's Civic Service | Rhuthun / Ruthin |
| 12/07/18 | Seremoni Ddinasyddiaeth<br>Citizenship Ceremony | Rhuthun / Ruthin |
| 13/07/18 | Dathliadau Ysgol Rhewl<br>Ysgol Rhewl Celebrations | Rhewl |
| 19/07/18 | Lansiad Arddangosfa Tom Pryce yn Amgueddfa Dinbych<br>Tom Pryce Exhibition Launch at Denbigh Museum | Dinbych / Denbigh |
| 22/07/18 | Gwasanaeth Dinesig Maer y Rhyl<br>Mayor of Rhyl's Civic Service<br>(Mynychodd yr Is-Gadeirydd / Vice-Chair attended) | Y Rhyl / Rhyl |
| 22/07/18 | Garddwest Elusennol Maer y Rhyl<br>Mayor of Rhyl's Charity Garden Party<br>(Mynychodd yr Is-Gadeirydd / Vice-Chair attended) | Y Rhyl / Rhyl |

| | | |
|---|---|---|
| 16/08/18 | Sioe Dinbych a Fflint/Denbigh and Flint Show<br>(Mynychodd yr Is-Gadeirydd / Vice-Chair attended) | Dinbych / Denbigh |
| 29/08/18 | #GweithreduNidGeiriau<br>#DeedsNotWords<br>(Mynychodd yr Is-Gadeirydd / Vice-Chair attended) | Trefnant |
| 02/09/18 | Gwasanaeth Dinesig Maer Llanelwy<br>Mayor of St. Asaph's Civic Service | Llanelwy / St. Asaph |

**CYNGOR SIR**

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun LL15 1YN, Dydd Mawrth, 3 Gorffennaf 2018 am 10.00 am.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr Mabon ap Gwynfor, Brian Blakeley, Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones, Ellie Chard, Ann Davies, Gareth Davies, Meirick Davies (Is-Gadeirydd), Peter Arnold Evans, Hugh Evans, Bobby Feeley, Rachel Flynn, Tony Flynn, Huw Hilditch-Roberts, Martyn Holland, Hugh Irving, Alan James, Brian Jones, Huw Jones, Pat Jones, Tina Jones, Gwyneth Kensler, Geraint Lloyd-Williams, Richard Mainon, Christine Marston, Barry Mellor, Melvyn Mile, Bob Murray, Pete Prendergast, Arwel Roberts, Peter Scott (Cadeirydd), Glenn Swingler, Andrew Thomas, Rhys Thomas, Tony Thomas, Julian Thompson-Hill, Graham Timms, Cheryl Williams, David Williams, Huw Williams, Emrys Wynne a/ac Mark Young

**HEFYD YN BRESENNOL**

Cyfarwyddwr Strategol: Cymunedau (NS) (yn lle'r Prif Weithredwr), Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd (GW), a'r Gweinyddwr Pwyllgor (SLW)

**1 YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Merfyn Parry, Paul Penlington, Anton Sampson, Joe Welch a/ac Eryl Williams

**2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Datganodd y Cynghorwyr Brian Blakeley ac Ellie Chard gysylltiad personol ag Eitem 3 (Cwestiwn a ofynnwyd gan y Cynghorydd Arwel Roberts) gan eu bod yn Llywodraethwyr yn Ysgol Tir Morfa, y Rhyl.

Datganodd y Cynghorydd Gwyneth Kensler gysylltiad personol ag eitem 3 gan ei bod yn gyn-Gadeirydd y Llywodraethwyr yn Ysgol Plas Brondyffryn.

Datganodd y Cynghorydd Gwyneth Kensler gysylltiad personol gydag eitem 6 hefyd gan ei bod ar lys Prifysgol Bangor.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Dim eitemau brys.

Datganodd y Cynghorwyr Brian Blakeley ac Ellie Chard gysylltiad personol â'r cwestiwn gan eu bod yn Llywodraethwyr yn Ysgol Tir Morfa, y Rhyl.

Datganodd y Cynghorydd Gwyneth Kensler gysylltiad personol â'r cwestiwn gan ei bod yn gyn-Gadeirydd y Llywodraethwyr yn Ysgol Plas Brondyffryn.

Ar y pwynt hwn, gofynnodd y Cynghorydd Arwel Roberts gwestiwn:

Beth yw'r trefniadau ar gyfer darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Tir Morfa ac Ysgol Plas Brondyffryn?

Ymateb gan Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Phobl Ifanc, y Cynghorydd Huw Hilditch Roberts:

Mae anghenion plant Ysgol Tir Morfa ac Ysgol Plas Brondyffryn yn unigol ac mae gan nifer o'r disgyblion anawsterau cyfathrebu sylweddol ac yn dibynnu ar gymorth gweledol i'w cynorthwyo. Mae'r ddwy ysgol yn gwneud eu gorau i gefnogi drwy gyfrwng y Gymraeg fel y bo'n briodol. Fodd bynnag, ar draws y rhanbarth, cydnabyddir bod angen gwneud mwy o waith. O ganlyniad i hyn mae GwE wedi sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen o dan Grŵp Strategol y Gymraeg, i ystyried hyn ar draws yr holl ysgolion arbennig yn y gogledd, a bydd hyn yn atgyfnerthu'r cynnig ar draws y rhanbarth cyfan yn y pendraw.

## 4 DYDDIADUR Y CADEIRYDD

Roedd rhestr o ddigwyddiadau dinesig a fynychwyd gan y Cadeirydd ar gyfer y cyfnod rhwng 16 Mai 2018 a 24 Mehefin 2018 wedi'i dosbarthu cyn y cyfarfod.

Nododd y Cadeirydd y bu'n gyfnod prysur ac un o'r uchafbwyntiau oedd mynychu Diwrnod y Lluoedd Arfog yn Llandudno a fu'n llwyddiant mawr.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn y rhestr o ymrwymiadau dinesig a fynychwyd gan y Cadeirydd.*

## 5 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor Llawn a gynhaliwyd ar 15 Mai 2018.

Materion yn Codi:

Tudalen 12 – Mynegodd y Cynghorydd Huw Jones ei ddiolch i bawb a gefnogodd ei Rybudd o Gynnig (Eitem 10) ynglŷn â grantiau gwisg ysgol. Roedd Llywodraeth Cymru wedi penderfynu y byddai grantiau ar gael yn awr.

Tudalen 14 – Mynegodd y Cynghorydd Mabon ap Gwynfor ei bryderon ynglŷn ag eitem 12 (Rhybudd o gynnig ynglŷn â: Kingdom Security) gan y gwnaed penderfyniad i atgyfeirio'r mater i'r pwyllgor craffu ond yng nghyfarfod y Cabinet yn ddiweddar, nododd y Deilydd Portffolio y gwnaed penderfyniad eisoes i beidio ag adnewyddu contract Kingdom Security. Mynegodd bryder unwaith eto gan ei fod yn credu bod hyn yn dwyn anfri ar y Cyngor gan na ddilynwyd y prosesau cywir.

Ymatebodd yr Aelod Arweiniol, y Cynghorydd Tony Thomas ei fod wedi cyflwyno datganiad i'r holl Gynghorwyr gydag ymddiheuriad a nododd bod y broses yn eglur ar gyfer trafodaethau diwedd contract ym mis Tachwedd.

Eglurodd y Swyddog Monitro bod y mater wedi'i drafod gan y Pwyllgor Craffu ym mis Mehefin 2018 ac y byddai cynigion llawn yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet ym mis Medi 2018. Ni fyddai'r mater yn cael ei atgyfeirio yn ôl i'r Cyngor gan ei fod yn benderfyniad Cabinet.

***PENDERFYNWYD y****n amodol ar yr uchod, cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mai 2018 fel cofnod cywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.*

**6 GWELEDIGAETH A STRATEGAETH DWF AR GYFER ECONOMI GOGLEDD CYMRU: CYTUNDEB LLYWODRAETHU**

Ar y pwynt hwn, datganodd y Cynghorydd Gwyneth Kensler gysylltiad personol gan ei bod ar lys Prifysgol Bangor.

Cyflwynodd yr Arweinydd, y Cynghorydd Hugh Evans, adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) i geisio cymeradwyaeth y Cyngor ar gyfer Cytundeb Llywodraethu o ran y trefniadau anweithredol.

Roedd Gweledigaeth Twf Economi Gogledd Cymru wedi'i mabwysiadu ym mis Medi 2016 gan y Cabinet a gan bob Cabinet yn y pum Awdurdod Lleol arall yn y rhanbarth.

Cymeradwyodd y Cabinet delerau'r Cytundeb Llywodraethu yn y cyfarfod ar 26 Mehefin 2018 ar gyfer y rhannau oedd yn ymwneud â threfniadau gweithredol ac argymell bod y Cyngor yn cymeradwyo'r trefniadau anweithredol.

Roedd model cydbwyllgor statudol wedi'i fabwysiadu fel yr un a ffefrir ar gyfer llywodraethu gwaith ar y Cynnig. Aelodau'r pwyllgor oedd chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru, ynghyd â Phrifysgol Bangor, Prifysgol Glyndŵr Wrecsam, Coleg Cambria a Grŵp Llandrillo Menai (roedd y Prifysgolion a'r Colegau yn cael eu hadnabod fel "yr Ymgynghorwyr"). Roedd y pwyllgor rhanbarthol wedi mabwysiadu teitl "Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru".

Roedd gan y Bwrdd ddau gam i'w rheoli ar gyfer datblygu'r Cynnig. Cam 1 yn arwain at gytuno ar Fargen Dwf gyda'r Llywodraethau, sef cam paratoi a datblygu'r Cynnig a fyddai parhau tan ganol 2019. Cam 2 ar ôl cytuno'r cynnig a fyddai'n dechrau o ganol 2019 ac yn cynnwys cam gweithredu a darparu'r Cynnig.

Nodwyd nad oedd yr adroddiad yn ceisio cyflwyno cynnwys Cynnig y Fargen Dwf datblygiadol mewn manylder gan mai ei brif bwrpas oedd cyflwyno Trefniadau Llywodraethu ar gyfer ei fabwysiadu. Byddai ail Gytundeb Llywodraethu cynhwysfawr yn cael ei lunio ar gyfer Cam 2.

Byddai adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor naill ai ym mis Medi neu fis Hydref 2018 a fyddai'n cynnwys manylion drafft terfynol y cynnig twf i'w adolygu a'i gydsynio cyn y cam o gyrraedd penawdau'r telerau gyda'r ddwy lywodraeth .
Cafwyd trafodaethau a oedd yn cyfeirio at Gam 2 y Cynnig Twf a gofynnwyd i'r Aelodau ganolbwyntio ar y manylion yn yr adroddiad sy'n berthnasol i Gam 1.

Byddai'r penderfyniadau pwysicaf ar gyfer chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru'n cael eu llunio'n lleol. Yn ystod Cam 1 y Cynnig, cynigwyd bod cynigion y Bwrdd ar gyfer y Cynnig yn destun craffu lleol drwy'r pwyllgor craffu priodol ym mhob cyngor, yn hytrach na chyflwyno rhyw fath o bwyllgor craffu rhanbarthol.

Gofynnir i bob cyngor gyflwyno swm o £50mil a byddai pob Ymgynghorydd yn talu swm o £25mil. Byddai manylion cyfraniadau ariannol y partïon yn cael eu nodi yng Ngham 2 y Cynnig.
Cadarnhawyd bod ymrwymiad gan Lywodraeth San Steffan a Llywodraeth Cymru i'r Cynnig Twf.

***PENDERFYNWYD:***

- *Nodi a chroesawu cynnydd ar ddatblygiad am Gynnig Bargen Dwf.*
- *Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r holl drefniadau anweithredol a nodwyd yn y Cytundeb Llywodraethu, h.y. trefniadau craffu.*
- *Byddai adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor naill ai ym mis Medi neu fis Hydref i'w adolygu a'i gydsynio cyn y cam o gyrraedd penawdau'r telerau gyda'r ddwy lywodraeth .*
- *Rhoddir awdurdod dirprwyol i'r Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a'r Parth Cyhoeddus a Phennaeth Gwasanaethau'r Gyfraith, AD a Democrataidd, mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd, i gadarnhau telerau'r Cytundeb Llywodraethu'n sylweddol yn unol â'r drafft sydd ynghlwm â'r adroddiad.*
- *Bod y Cyngor yn cymeradwyo cynnwys y trefniadau gweithredol a gymeradwywyd gan y Cabinet ynghyd â'r trefniadau anweithredol yn ymwneud â Chraffu yn y Cyfansoddiad.*

**7 RHYBUDD O GYNNIG**

Cyflwynodd y Cynghorydd Emrys Wynne y Rhybudd o Gynnig canlynol i'w ystyried gan y Cyngor Llawn:

Mae'r Cyngor hwn yn galw ar y Cyngor Sir i ddangos arweiniad i weddill Sir Ddinbych drwy ymrwymo i fod yn sir heb blastig o fewn dwy flynedd.
Ni fydd y Cyngor hwn yn defnyddio plastig defnydd untro.
Rydym hefyd yn galw ar y Cyngor i gysylltu â chyflenwyr nwyddau'r Cyngor, gan alw arnynt i ystyried eu defnydd o blastig.
Ystyried y defnydd o blastig wrth gontractio i gwmnïau allanol.
Ni fydd gwellt plastig yn cael eu cynnwys yn y polisi oherwydd anghenion pobl gydag anableddau ac anawsterau llyncu.

Mynegodd y Cynghorydd Wynne ei bryderon a'r rhesymau pam ei fod wedi cyflwyno'r Rhybudd o Gynnig gyda'r gobaith o dderbyn cefnogaeth drawsbleidiol.

Roedd y Cynghorydd Mabon ap Gwynfor yn eilio'r Rhybudd o Gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Emrys Wynne.

Eglurodd y Cynghorydd Brian Blakeley bod y Cynghorwyr wedi ymrwymo y byddai'r Rhyl yn ddi-blastig yn y dyfodol. Yna aeth yn ei flaen i geisio diwygiad i'r Rhybudd

o Gynnig. Gofynnodd bod y Rhybudd o Gynnig yn cynnwys y defnydd o wellt plastig oherwydd bod busnesau yn defnyddio nifer sylweddol o wellt plastig gan ychwanegu at y broblem. Roedd gwellt bioddiraddiadwy ar gael ar gyfer pobl anabl neu bobl ag anawsterau llyncu.

Eiliodd y Cynghorydd Bob Murray y diwygiad i'r Rhybudd o Gynnig.

Eglurodd Pennaeth Gwasanaethau'r Gyfraith, AD a Democrataidd y byddai'n rhaid pleidleisio ar y diwygiad cyn y gellir parhau ag unrhyw drafodaethau neu ddiwygiadau pellach.

Ar y pwynt hwn, cafwyd pleidlais ar y diwygiad ac roedd y canlyniadau fel a ganlyn:

(i) O blaid y diwygiad i gynnwys gwellt plastig – 19
(ii) Ymatal - 3
(iii) Yn erbyn y diwygiad - 20

Yn dilyn y bleidlais nodwyd bod y diwygiad a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Brian Blakeley wedi methu.

Ar y pwynt hwn, cyflwynodd y Cynghorydd Huw Williams ddiwygiad pellach fel a ganlyn:

“Rydym yn cefnogi’r Rhybudd o Gynnig mewn egwyddor ar gyfer lleihau’r defnydd o blastig ond bod y Pwyllgor Craffu yn gwneud gwaith ar y mater ac yn adrodd yn ôl i’r Cyngor."

Eiliodd y Cynghorydd Barry Mellor y diwygiad i'r Rhybudd o Gynnig.

Ar y pwynt hwn, cafwyd pleidlais ar y diwygiad ac roedd y canlyniadau fel a ganlyn:

(i) O blaid y diwygiad bod y Pwyllgor Craffu yn cyflawni rhagor o waith ar y mater -33
(ii) Ymatal - 2
(iii) Yn erbyn y diwygiad - 7

Yn dilyn y bleidlais nodwyd bod y diwygiad a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Huw Williams yn llwyddiannus.

Gan fod y diwygiad wedi’i basio, yna byddai’n ffurfio'r prif gynnig a chafwyd trafodaeth cyn y bleidlais.

Cytunodd yr aelodau bod y defnydd o blastig defnydd untro yn broblem ledled y byd, ond yn lleol roedd yn rhaid i’r cyngor weithredu ac roeddent yn cytuno’n unfrydol y dylid trafod y mater yn y Pwyllgor Craffu gan ei fod yn ymwneud â chryn dipyn o waith.

Ar y pwynt hwn, cafwyd pleidlais ar y cynnig ac roedd y canlyniadau fel a ganlyn:

(i) O blaid y prif gynnig fel y'i diwygiwyd – 38
(ii) Ymatal - 1
(iii) Yn erbyn y diwygiad - 1

Felly:

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cyngor yn cefnogi lleihau'r defnydd o blastig mewn egwyddor ond yn cyfeirio'r mater i'r Pwyllgor Craffu i'w ystyried yn fanylach a bod adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor.*

**8 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CYNGOR SIR**

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau'r Gyfraith, Adnoddau Dynol a Democrataidd Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor (dosbarthwyd eisoes).

Cadarnhawyd y byddai'r Cynnig Twf yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn ym mis Medi neu fis Hydref 2018.

Roedd Hyfforddiant Aelodau wedi'i ychwanegu at raglen waith mis Medi 2018 hefyd.

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar yr uchod, y dylid cymeradwyo a nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor.*

**DAETH Y CYFARFOD I BEN AM 11.55 A.M.**

**Adroddiad i'r:** Cyngor

**Dyddiad y cyfarfod:** 11 Medi 2018

**Aelod Arweiniol:** Y Cynghorydd Mark Young, Aelod Arweiniol Safonau Corfforaethol

**Awdur yr Adroddiad:** Steve Price, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd

**Teitl:** Hyfforddiant a Datblygu Aelodau

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad ar faterion hyfforddiant aelodau.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Ar 10 Ebrill 2018 ystyriodd y Cyngor adroddiad ar hyfforddiant a datblygu aelodau, a chytuno y dylid cyflwyno adroddiad pellach parthed hyfforddiant gorfodol a hyfforddiant yn ôl disgresiwn a chosbau posib.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Y dylai'r Cyngor drafod hyfforddiant a datblygu aelodau ac amlinellu ei ddull gweithredu mewn perthynas â hyfforddiant gorfodol a hyfforddiant yn ôl disgresiwn, a chosbau posib am beidio â mynychu hyfforddiant 'gorfodol', yn benodol:

(i) Y cyrsiau hyfforddi hynny y bydd yn rhaid i bob Aelod eu cwblhau;
(ii) Y cyrsiau hyfforddi hynny fydd yn orfodol i Aelodau sy'n ymgymryd â rôl benodol yn unig (fel aelod o bwyllgor, neu mewn rôl uwch arweinyddol o fewn y Cabinet neu fel cadeirydd pwyllgor, er enghraifft);
(iii) Y cyfnod o amser a ganiateir i Aelodau er mwyn cwblhau pob cwrs hyfforddi gorfodol; ac
(iv) Y cosbau neu'r camau eraill a weithredir ar Aelodau nad ydynt wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol sydd yn berthnasol iddynt o fewn y graddfeydd amser a osodwyd gan y Cyngor.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Roedd adborth gan Aelodau wedi etholiadau 2008 yn nodi fod y rhaglen hyfforddi cychwynnol ar gyfer y Cyngor newydd yn annigonol, tra y teimlai Aelodau yn 2012 y cynigiwyd gormod o hyfforddiant ar gychwyn y Cyngor hwnnw. O ganlyniad, mae'r hyfforddiant sydd wedi ei ddarparu ers etholiadau 2017 wedi ei anelu i fod rhywle yn y canol rhwng y ddwy raglen flaenorol o ran dwyster a chwmpas.

4.2 Ym mis Ebrill, canmolodd Aelodau safon ragorol yr hyfforddiant mewnol a ddarparwyd [yn ystod y tymor Cyngor newydd hwn].

Hyfforddiant Gorfodol 2014

4.3 Yn 2014, penderfynodd y Cyngor Blaenorol y byddai'r hyfforddiant gorfodol 'generig' canlynol yn cael ei fynychu gan bob Aelod:

- Cod Ymddygiad
- Diogelu / Rhianta Corfforaethol / Amddiffyn Plant
- Cyllid
- Cydraddoldeb
- Cyflwyniad (strwythur y Cyngor, Cyfansoddiad a Diogelu Data)

4.4 Yn ychwanegol at hyn, penderfynodd y cyngor y byddai'n rhaid i rai Aelodau a oedd yn ymgymryd â rolau penodol fynychu peth hyfforddiant rôl-benodol gorfodol yn ogystal â'r hyfforddiant gorfodol 'generig' uchod (er y byddai croeso i Aelodau eraill fynychu pe baent yn dymuno gwneud hynny).

- Sgiliau Cadeirio (ar gyfer Cadeiryddion / Is-gadeiryddion yr holl bwyllgorau)
- Craffu (Cadeirio) ar gyfer Cadeiryddion y Pwyllgorau Craffu
- Arweinwyr Grŵp
- Cabinet (i gynnwys Siarad Cyhoeddus a siarad â'r Cyfryngau)
- Pwyllgor Cynllunio;
- Pwyllgor Trwyddedu

4.5 Ni osodwyd unrhyw gosbau gan y Cyngor Blaenorol (ar wahân i'r un ar gyfer y Pwyllgor Cynllunio) os nad oedd aelod yn llwyddo i ymgymryd â hyfforddiant gorfodol.

Hyfforddiant Gorfodol 2018

4.6 Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, mae'n ofynnol i bob aelod fynychu hyfforddiant Cod Ymddygiad ac mae pob aelod wedi gwneud hynny. Oherwydd pwysigrwydd sicrhau mai Aelodau sy'n meddu ar wybodaeth briodol o ddeddfwriaeth a pholisïau cynllunio sy'n gwneud penderfyniadau ar y Pwyllgor Cynllunio, mae gofyniad y Cyngor Blaenorol fod holl aelodau'r Pwyllgor Cynllunio yn cwblhau 2 sesiwn hyfforddiant yn flynyddol wedi ei gario ymlaen. Y gosb i Aelod nad yw'n cydymffurfio ac yn derbyn yr hyfforddiant angenrheidiol yw na chaiff yr Aelod hwnnw bleidleisio ar faterion cynllunio. Mae aelodau'r Pwyllgor Cynllunio wedi ymateb yn dda i'r gofynion hyn unwaith eto.

4.7 Gofynnir i'r Cyngor newydd hwn gadarnhau ei ofynion hyfforddiant 'gorfodol' ei hun ar gyfer yr holl Aelodau a'r unigolion hynny sy'n ymgymryd â rolau penodol. Yng nghyfarfod y Cyngor fis Ebrill, daeth y meysydd hyfforddi isod i'r amlwg fel rhai yr argymhellwyd y dylent fod yn orfodol:

- Cod Ymddygiad *(Mae hyfforddiant yn ofyniad o dan y Cod Ymddygiad)*
- Pwyllgor Cynllunio *(Cedwir at hwn fel hyfforddiant gorfodol; dim ond i aelodau'r Pwyllgor Cynllunio y mae hyfforddiant wedi bod yn orfodol)*
- Pwyllgor Trwyddedu *(i aelodau'r Pwyllgor Trwyddedu yn unig)*
- Cyllid

- Rhianta Corfforaethol
- Diogelu
- Diogelu Data

4.8 Mae'n bosib y bydd angen i unrhyw hyfforddiant a nodir fel hyfforddiant 'gorfodol' gael ei ailadrodd neu ei gynnig ar adegau priodol er mwyn galluogi i aelodau gyflawni eu rhwymedigaethau, ac mae'r defnydd hwn o adnoddau yn ystyriaeth berthnasol wrth ystyried sawl maes y dylid eu gwneud yn orfodol. Mae E-ddysgu ar gyfer Aelodau yn y broses o gael ei ddatblygu a bydd yn cynnig modiwlau ar bynciau yn cynnwys Diogelu a Thrais Domestig. Mewn rhai achosion bydd modiwlau E-ddysgu yn ddull cost-effeithiol a chyfleus i Aelodau gael mynediad at hyfforddiant.

Cosbau

4.9 Nid gweithwyr y Cyngor yw Cynghorwyr, ond yn hytrach deiliaid swyddi a etholir gan eu hetholwyr. Mae hyn yn golygu na fydd y mesurau sydd ar gael i sicrhau ymlyniad swyddogion at hyfforddiant gorfodol o reidrwydd ar gael i Aelodau.

4.10 Fodd bynnag, gallai'r Cyngor gymryd rhai camau, gan gynnwys:

(a) Cytuno ar ddisgwyliad clir na fydd rhai rolau penodol ar gael i Aelodau nad ydynt wedi ymgymryd â'r hyfforddiant angenrheidiol. I roi esiampl cyfredol, ni chaniateir i aelodau'r Pwyllgor Cynllunio nad ydynt wedi llwyddo i gwblhau dau sesiwn hyfforddi yn ymwneud â chynllunio yn flynyddol bleidleisio ar faterion cynllunio.
(b) Cyhoeddi'r holl gofnodion presenoldeb mewn hyfforddiant – neu'r rheiny sy'n ymwneud â hyfforddiant gorfodol yn unig – ar wefan y Cyngor.
(c) Adrodd yn ôl ar gydymffurfiad Aelodau â'u hyfforddiant gorfodol i bwyllgor cyhoeddus. Gallai hwn fod yn Bwyllgor Safonau neu Bwyllgor Llywodraethu Corfforaethol y Cyngor. Byddai'r adroddiadau hyn ar gael o wefan y Cyngor, a byddai'r pwyllgor yn dal Aelodau i gyfrif am eu diffyg cydymffurfiad mewn cyfarfod cyhoeddus.

Adolygiadau Datblygiad Personol

4.11 Mae adolygiadau datblygu personol wedi'u cynnig i'r holl Aelodau. Caiff yr adolygiadau hynny eu trefnu dros y misoedd nesaf ar gyfer Aelodau sydd wedi – neu sydd bellach yn dymuno – eu derbyn. Mae'n bwysig nodi nad gwerthusiadau perfformiad yw adolygiadau datblygu personol; un ffordd yn unig ydynt o ganfod a chefnogi anghenion hyfforddiant a datblygu Cynghorydd.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Nid yw'r adroddiad hwn yn cyfrannu'n uniongyrchol at y Blaenoriaethau Corfforaethol, er y bydd aelodau etholedig sydd wedi'u hyfforddi ac yn cael eu cefnogi'n briodol yn cyfrannu at berfformiad y Cyngor ym meysydd strategaeth, ddatblygu polisïau a gwneud penderfyniadau.

**6. Beth fydd cost hyn a beth fydd ei effaith ar wasanaethau eraill?**

Darperir y rhan fwyaf o'r cynllun hyfforddi gan Swyddogion y Cyngor. Nid yw hyn yn gofyn am ariannu ychwanegol ond bydd angen amser y Swyddogion, ac fe fydd hyn yn ffactor wrth bennu maint a chymhlethdod y rhaglen y mae modd ei darparu. Mae angen gwaith hwyluso allanol ar gyfer rhai meysydd hyfforddi ac fe fyddai angen cynnwys hyn o fewn y gyllideb hyfforddiant Aelodau.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?**

Nid oes angen asesiad ar gyfer yr adroddiad hwn.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Craffu ac eraill?**

Yn ychwanegol at drafodaeth y Cyngor llawn ym mis Ebrill 2018 a amlinellwyd yn yr adroddiad hyn, ystyriodd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd drosolwg o'r materion dan sylw ar 23 Mawrth 2018. Tra'n ymwybodol y byddai gofyn i'r Cyngor benderfynu ar faterion yn ymwneud â hyfforddiant gorfodol ac unrhyw gosbau, roedd y Pwyllgor yn gefnogol o'r cynllun hyfforddi. Gofynnodd y Pwyllgor am sicrhau fod cofnodion hyfforddiant wedi eu personoli ar gael i bob Aelod yn ogystal â rhoi mynediad at wybodaeth am bynciau hyfforddi i'r dyfodol.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Roedd tanwariant o £53k yng nghyllideb yr Aelodau ar gyfer y flwyddyn 2017/18 oherwydd oedi wrth benodi Cabinet a Chadeiryddion Pwyllgorau yn dilyn etholiadau'r Cyngor. Cytunodd y Cabinet y dylid cario'r arian yma ymlaen i 2018/19 er mwyn ariannu costau o fewn y maes gwasanaeth gan gynnwys anghenion hyfforddiant a phenderfyniadau'n deillio o Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Mae adolygiad llawn o'r gyllideb wedi cael ei gynnal er mwyn gosod cyllideb flynyddol gynhaliol ar gyfer 2018/19. Ar hyn o bryd, amcangyfrifir y bydd angen £31k o'r tanwariant hwn.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Bwriad hyfforddiant a datblygu yw darparu Aelodau â'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i gyflawni rolau gwahanol. Heb yr hyfforddiant hwn, mae risg uwch mewn rhai meysydd o heriau llwyddiannus i benderfyniadau neu atgyfeiriadau i Ombwdsmon y Gwasanaethau Cyhoeddus, a pherfformiad salach yn gyffredinol.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

**Adroddiad i'r:** Cyngor Sir

**Dyddiad y cyfarfod:** 11 Medi 2018

**Aelod / Swyddog Arweiniol:** Barry Mellor, Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol

**Awdur yr Adroddiad:** Gary Williams, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, Cyfreithiol ac AD

**Teitl:** **Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol**

---

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Mae'r adroddiad hwn ar waith y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol (y Pwyllgor) ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2017/18

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

I hysbysu'r holl Aelodau am waith y Pwyllgor.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

3.1 Bod yr Aelodau yn nodi cynnwys yr adroddiad.

**4. Manylion yr Adroddiad**

4.1 Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 mae gofyniad statudol ar y Cyngor i fod â Phwyllgor Archwilio. Y Pwyllgor yw pwyllgor dynodedig y Cyngor at y diben hwn. Rôl statudol y Pwyllgor Archwilio yw i adolygu a chraffu ar faterion ariannol yr Awdurdod, rhoi adroddiadau ac argymhellion ynghylch materion ariannol yr Awdurdod, adolygu ac asesu trefniannau rheoli risg, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol yr Awdurdod, a darparu adroddiadau ac argymhellion i'r Awdurdod ar addasrwydd ac effeithiolrwydd y trefniannau hynny. Mae'n ofynnol i'r Pwyllgor oruchwylio trefniannau archwilio mewnol ac allanol yr Awdurdod, ac adolygu datganiadau ariannol a baratoir gan yr Awdurdod. Y Pwyllgor hefyd yw'r corff sy'n gyfrifol am adolygu'r Cyfansoddiad.

4.2 Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn gofyn fod aelodaeth y Pwyllgor yn cynnwys chwech Aelod Etholedig ar sail wleidyddol gytbwys. Nid oes gofyniad statudol i'r Pwyllgor fod yn wleidyddol gytbwys. Mae gofyniad statudol i gael o leiaf un aelod lleyg annibynnol o'r Pwyllgor. Yr aelod lleyg presennol yw Mr. Paul Whitham. Y bydd ei dymor yn dod i ben ar ddyddiad yr etholiadau llywodraeth leol nesaf yn 2022

4.3 Mynychir pob cyfarfod Pwyllgor gan Swyddog Adran 151, Swyddog Monitro a Pennaeth Archwilio Mewnol y Cyngor neu gynrychiolwyr ar eu cyfer. Yn ychwanegol at hynny, mynychir pob cyfarfod gan swyddogion o Swyddfa Archwilio Cymru.

4.4 Dyma Adroddiad Blynyddol cyntaf y Pwyllgor ers yr etholiadau llywodraeth leol yn 2017. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod ei fod wedi bod yn dysgu gyda'i gilydd am ei rolau a'i gyfrifoldebau yn ystod y cyfnod hwn. Yn ystod y cyfnod sydd dan sylw yn yr adroddiad hwn, mae’r Pwyllgor wedi derbyn nifer o adroddiadau blynyddol mewnol ar faterion yn ymwneud â llywodraethu. Mae’r rhain yn cynnwys:

4.4.1 Adroddiad Datganiad Llywodraethu Blynyddol – mae’r adroddiad hwn yn darparu adroddiad hunanasesu ar lywodraethu a threfniannau gwelliant y Cyngor ar gyfer 2016-17, sydd yn cynnwys ‘datganiad llywodraethu blynyddol’ y Cyngor. Nid oedd unrhyw broblemau llywodraethu sylweddol i adrodd arnynt. Cynhwyswyd unrhyw faterion llai sylweddol yn y Cynllun Gweithredu Gwella Llywodraethu a gaiff ei fonitro gan y Pwyllgor.

4.4.2 Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch Corfforaethol – dyma adroddiad gan y Swyddog Iechyd a Diogelwch Corfforaethol er mwyn darparu sicrwydd i’r Pwyllgor fod damweiniau a digwyddiadau yn cael eu hadrodd yn ôl a’u monitro; y cynllunnir gweithgaredd yn unol â gwybodaeth a ddarperir gan ddadansoddiad o’r bylchau a’r peryglon gwasanaeth; ac y darperir hyfforddiant yn ôl yr angen. Mae’r asesiadau cyffredinol o ddull Cyngor Sir Ddinbych o weithredu systemau Iechyd a Diogelwch ac o’r modd y mae gweithwyr yn ymwneud â Iechyd a Diogelwch ill dau yn cyrraedd sicrwydd canolig (melyn). Golyga hyn fod systemau rheoli Iechyd a Diogelwch ar y cyfan yn cael eu datblygu a’u cofnodi. Ar y cyfan, nodir a rheolir peryglon sylweddol er mwyn lleihau risg. Ar y cyfan, mae gweithwyr yn cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu a defnyddio systemau rheoli Iechyd a Diogelwch.

4.4.3 Adroddiad Blynyddol yr Uwch-Swyddog Risg Gwybodaeth – Mae gan yr Uwch-Swyddog Risg Gwybodaeth gyfrifoldeb penodol i sicrhau y rheolir gwybodaeth a ddelir gan y Cyngor yn ddiogel, yn effeithiol, ac yn unol â deddfwriaeth. Mae’r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth i Aelodau am unrhyw fylchau mewn diogelu data a allai fod wedi digwydd ac a oes unrhyw faterion neu dueddiadau sydd yn golygu fod angen cymryd camau pellach. Mae’r adroddiad yn cyflwyno data ystadegol ynglŷn â cheisiadau am wybodaeth yn unol â deddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth a nifer y cwynion a wneir i Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth. Ni fu unrhyw fylchau difrifol mewn Diogelu Data yn ystod y cyfnod dan sylw yn yr adroddiad.

4.4.4 Adroddiad Blynyddol Rhannu Pryderon – mae Polisi Rhannu Pryderon y Cyngor yn gofyn fod adroddiad blynyddol yn cael ei ddarparu i’r Cyngor ar niferoedd a chanlyniadau pryderon a godwyd o dan y polisi, gan adrodd ar unrhyw dueddiadau neu faterion sydd yn golygu bod angen cymryd camau pellach. Ni leisiwyd unrhyw bryderon o dan y polisi yn ystod y cyfnod o dan sylw yn yr adroddiad.

4.4.5 Adroddiad Blynyddol Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio – Mae polisi Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio'r Cyngor yn delio â’r modd y cynhelir gweithgaredd gwyliadwriaeth gan y Cyngor, ac yn gofyn am adroddiad blynyddol ar nifer yr awdurdodiadau a roddwyd ar gyfer gweithgaredd gwyliadwriaeth wedi ei gyfarwyddo o dan y ddeddfwriaeth berthnasol er mwyn sicrhau’r Pwyllgor fod y Cyngor yn gweithredu o fewn y cyfyngiadau a osodir gan ddeddfwriaeth. Ni roddwyd unrhyw awdurdodiadau ar gyfer gweithgaredd

gwyliadwriaeth wedi ei gyfarwyddo yn ystod y cyfnod o dan sylw yn yr adroddiad.

4.5 Mae'r Pwyllgor hefyd yn cynnwys nifer o adroddiadau blynyddol yn ymwneud â materion ariannol. Mae'r rhain yn cynnwys:

4.5.1 Datganiad Cyfrifon – Yn flynyddol, mae gofyn i'r Pwyllgor gymeradwyo Datganiadau Cyfrifon y Cyngor fel y gall Cadeirydd y Pwyllgor a'r Swyddog Adran 151 eu cadarnhau. Mae'r cyfrifon yn cynnwys toreth o wybodaeth, ac felly cyflwynir drafft i'r Pwyllgor mewn cyfarfod cyn toriad yr haf, gan gyflwyno'r datganiad cyfrifon terfynol i'w gymeradwyo ym mis Medi bob blwyddyn er mwyn sicrhau cyfle digonol i'r Pwyllgor archwilio a chraffu ar y ddogfennaeth. Cymeradwywyd y cyfrifon.

4.5.2 Rheoli Trysorlys – Mae'r Pwyllgor yn derbyn dau adroddiad ar swyddogaethau rheoli trysorlys y Cyngor yn flynyddol. Mae'r adroddiadau yn cyflwyno manylion cyllido cyfalaf, benthyca, ad-drefnu dyledion a thrafodion buddsoddi ar gyfer y cyfnod sydd dan sylw yn yr adroddiad. Mae'r adroddiadau hefyd yn delio â goblygiadau risg penderfyniadau a thrafodion y trysorlys, ac yn nodi cydymffurfiaeth â therfynau'r trysorlys a Dangosyddion Darbodus. Mae'r Pwyllgor yn adolygu'r Strategaeth Rheoli Trysorlys Blynyddol cyn iddo gael ei gymeradwyo gan y Cyngor.

4.5.3 Ysgolion mewn Trafferthion Ariannol – derbyniodd y Pwyllgor adroddiad i esbonio polisi a dull y Cyngor o weithio gydag ysgolion sy'n profi trafferthion ariannol. Mae'r polisi yn dilyn nifer o gamau uwchgyfeirio. Un o'r camau hyn yw i ysgolion unigol a llywodraethwyr gyflwyno adroddiadau i'r Pwyllgor.

4.6 Mae'r Pwyllgor hefyd yn derbyn Adroddiadau Rheoleiddio Allanol. Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, mae'r Pwyllgor wedi derbyn yr adroddiadau canlynol:

4.6.1 Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru – Cyflwynwyd yr adroddiad hwn i'r Pwyllgor a'r Cyngor Llawn ac mae'n grynodeb o waith archwilio gan Swyddfa Archwilio Cymru, gan gynnwys astudiaethau ar Lywodraethu, Rheoli Gwybodaeth a'r defnydd o adnoddau. Mae'r adroddiad ar y cyfan yn gadarnhaol ynghylch y Cyngor ac nid yw'n cynnwys unrhyw argymhellion sylweddol ar gyfer newid. Cyflwynwyd chwech 'cynnig ar gyfer gwelliant' i'r Cyngor ynghyd â'r gweithredoedd ynghlwm â phob un ohonynt.

4.6.2 Llythyr Archwilio Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru – derbyniodd y Pwyllgor lythyr archwilio blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru. Prif negeseuon y llythyr hwn oedd fod Cyngor Sir Ddinbych wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adrodd ariannol a defnydd o adnoddau, fod Swyddfa Archwilio Cymru yn fodlon fod trefniannau priodol yn eu lle gan y Cyngor i sicrhau economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn y modd y mae'n defnyddio adnoddau, ac nad oedd eu gwaith ar ardystiadau hawliadau a ffurflenni grantiau hyd yn hyn wedi adnabod unrhyw broblemau sylweddol a fyddai'n cael effaith ar gyfrifon a systemau ariannol allweddol ar gyfer 2016-17.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn derbyn adroddiadau ar raglen waith Swyddfa Archwilio Cymru.

4.6.3 Diweddariad Gweithredu Gwasanaethau Gofal Cartref – Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad ar yr ymateb i adroddiad Cyngor Sir Ddinbych yn dilyn yr Adolygiad Cenedlaethol o Ofal Cartref yng Nghymru a gynhaliwyd gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, adroddiad rheoleiddio allanol a gyflwynwyd yn ystod blwyddyn flaenorol y Cyngor.

4.6.4 Diweddariad ar y Cynllun Gweithredu Atal Digartrefedd – Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad gwybodaeth ar gynnydd y Cynllun Gweithredu Atal Digartrefedd, a oedd yn cynnwys camau gweithredu yr oedd eu hangen yn unol â Strategaeth Digartrefedd Sir Ddinbych 2017-21; Cynllun (Comisiynu) Blynyddol Atal Digartrefedd / Cefnogi Pobl Sir Ddinbych, ac argymhellion adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, 'Sut mae Llywodraeth Leol yn rheoli galw – Digartrefedd' (Ionawr 2018) i ddarparu sicrwydd fod y gwasanaeth wedi ymateb i argymhellion a dderbyniwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru.

4.7 Mae'r Pwyllgor hefyd yn derbyn adroddiadau rheolaidd gan y Prif Archwilydd Mewnol ar y cynnydd a wnaed ar gyflawni gofynion y Cynllun Archwilio Mewnol a gymeradwyir gan y Pwyllgor. Mae aelodau'r Pwyllgor hefyd yn derbyn copïau o adroddiadau archwilio mewnol. Caiff yr adroddiadau hynny sydd â sicrwydd "isel" eu hystyried pan fydd y Pwyllgor yn cyfarfod, a chaiff y cynlluniau gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon eu craffu a'u monitro gan y Pwyllgor. Mae adroddiadau archwilio y mae'r Pwyllgor wedi eu hystyried neu wedi monitro eu cynlluniau gweithredu yn ystod y cyfnod dan sylw yn cynnwys Diogelu Corfforaethol, Rheoli Gwybodaeth a Rheoli TG mewn Ysgolion, Rheoli'r Fflyd Gorfforaethol a Chyfleusterau Cyhoeddus.

4.8 Mae'r Pwyllgor hefyd wedi derbyn adroddiadau yn adolygu materion corfforaethol eraill yn cynnwys y Fframwaith Rheoli Risg Strategol a pharatoadau'r Cyngor at gyflwyno'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae gwaith y Pwyllgor wrth graffu ar reolaethau materion ariannol, rheoli risg a llywodraethu corfforaethol y Cyngor yn cynorthwyo'r Cyngor yn y gwaith o gyflawni'r Blaenoriaethau Corfforaethol.

## 6. Beth fydd cost hyn a beth fydd ei effaith ar wasanaethau eraill?

Nid oes unrhyw gostau uniongyrchol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

Nid yw'r adroddiad hwn yn cynnwys unrhyw gynnig ond yn hytrach mae'n adroddiad ar y gwaith a wnaed gan y Pwyllgor dros y flwyddyn ddiwethaf. O ganlyniad, nid oes angen unrhyw asesiad effaith.

## 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Craffu ac eraill?

Mae'r Pwyllgor wedi derbyn a gwneud sylwadau ar ddrafft o'r adroddiad hwn.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae'r Pwyllgor yn rhan allweddol o drefniadau llywodraethu'r Cyngor. Mae craffu effeithiol ar brosesau ariannol, systemau a thrafodion sylweddol yn elfen hanfodol o reolaeth fewnol ac yn darparu lefel o sicrwydd i'r Cyngor ehangach ac i randdeiliaid eraill. <

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Y risg o beidio â chael Llywodraethu Corfforaethol neu Bwyllgor Archwilio effeithiol yw nad oes trosolwg o lywodraethu corfforaethol y Cyngor, sydd yn rhan allweddol o berfformiad da. Gall llywodraethu corfforaethol gwan gyfrannu at fethiannau o ran darparu gwasanaethau.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Nid oes angen gwneud penderfyniad o ganlyniad i’r adroddiad hwn.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| Cyfarfod | Eitem (disgrifiad / teitl) | | Pwrpas yr Adroddiad | Angen penderfyniad gan y Cyngor (oes/nac oes) | Aelod Arweiniol a Swyddog Cyswllt |
|---|---|---|---|---|---|
| **23 Hydref 2018** | 1 | Adolygiad Perfformiad Blynyddol | Ystyried perfformiad yn ystod 2017-18 mewn perthynas â'r Cynllun Corfforaethol a'r dyletswyddau cydraddoldeb | Oes | Alan Smith / Nicola Kneale |
| | 2 | Cyd graffu ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus | Sefydlu Cydbwyllgor Craffu gyda Chonwy i graffu ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus | Oes | Steve Price / Rhian Evans |
| | 3 | Prosiectau blaenoriaeth Cais Twf Gogledd Cymru | Cefnogi'r blaenoriaethau rhanbarthol ar gyfer trafodaethau ar y Cais Twf gyda'r Llywodraeth | Oes | Cyngh Hugh Evans / Graham Boase |
| | | | | | |
| | | | | | |
| **Briffio'r Cyngor 5 Tachwedd 2018** | 1 | Adroddiad Blynyddol Fframwaith Hamdden y DU | Cyflwyniad gan y Pennaeth Cyfleusterau, Asedau a Thai ac Alliance Leisure | | Jamie Groves / Tom Booty / Andy Moreland / Paul Cluett (Alliance Leisure) |
| | 2 | Cyflwyniad BIPBC ar ei Strategaeth Gymunedol ar gyfer siapio ysbytai cymunedol yn y sir. | | Amh | |
| | 3 | Y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol | Rhoi brîff i'r aelodau ar y FfDC a'i gysylltiad â'r Cynllun Datblygu Lleol | N/A | Cyngh Brian Jones / Angela Loftus |
| | | | | | |
| **4 Rhagfyr 2018** | 1 | Premiwm treth y cyngor ar dai gwag hirdymor ac ail gartrefi | Diweddariad ar gynnydd y cynllun | Oes | Cyngh Julian Thompson-Hill / Paul Barnes |
| | 2 | Gwir Gyflog Byw | Trafodaeth yn dilyn Rhybudd o Gynnig a gyflwynwyd gan y | | Richard Weigh |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Cynghorydd Graham Timms yng Nghyfarfod y Cyngor ar 30/01/18 | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| **29 Ionawr 2019** | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| **19 Chwefror 2019** | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| **BRIFFIO'R CYNGOR 18 Mawrth 2019** | 1 | CDLl Cyn-adneuo | Rhoi brîff i'r aelodau cyn gofyn i'r Cyngor gymeradwyo'r CDLl Cyn-adneuo. | Amh | Cyngh Brian Jones / Angela Loftus |
| | 2 | Ail-lansio Rhaglen Adfywio'r Rhyl | Rhoi diweddariad i'r aelodau ar drefniadau'r dyfodol ar gyfer adfywio'r Rhyl | Oes | Cyngh Hugh Evans / Graham Boase |
| | | | | | |
| **CYNGOR ARBENNIG 28 Mawrth 2019** | 1 | CDLl | Gofyn i'r Cyngor Llawn gymeradwyo'r CDLl | Oes | Cyngh Brian Jones / Angela Loftus |
| | | | | | |
| **9 Ebrill 2019** | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| **14 Mai 2019** | 1 | Adolygu'r ardaloedd pleidleisio a'r mannau pleidleisio. | Ystyried adolygiad statudol o ranbarthau a mannau pleidleisio Sir Ddinbych. | Oes | Cyngh Mark Young / Steve Price / Gareth Evans |
| | 2 | Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu | Ystyried Adroddiad Blynyddol Craffu yn unol â chyfansoddiad y Cyngor. | Oes | Steve Price / Rhian Evans |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 3 | Cytundeb Llywodraethu Cais Twf Gogledd Cymru 2 | Cymeradwyo trefniadau llywodraethu perthnasol i weithrediad y fargen dwf | Oes | Cyngh Hugh Evans / Graham Boase / Gary Williams |
| | | | | | |
| **Briffio'r Cyngor 3 Mehefin 2019** | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| **2 Gorffennaf 2019** | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| **10 Medi 2019** | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| **15 Hydref 2019** | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| **BRIFFIO'R CYNGOR 11 Tachwedd 2019** | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| **3 Rhagfyr 2019** | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |

***Note for Officers – Full Council Report Deadlines***

| *Meeting* | **Deadline** | *Meeting* | **Deadline** | *Meeting* | **Deadline** |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| *October 2018* | ***9 October 2018*** | | | | |
| *December 2018* | ***20 November 2018*** | *January 2019* | ***15 January 2019*** | *February 2019* | ***5 February 2019*** |
| *April 2019* | ***26 March 2019*** | *May 2019* | ***30 April 2019*** | *July 2019* | ***18 June 2019*** |
| *September 2019* | ***27 August 2019*** | *October 2019* | ***1 October 2019*** | *December 2019* | ***19 November 2019*** |

Updated 24/08/2018 SLW

Council Work Programme.doc